



# Amnest Rhyngwladol

## CYNLLUN GWERS RHEOLI ARFAU

### YNGLŶN Â'R WERS HON

Mae'r wers hon yn cyflwyno pwnc y fasnach arfau ryngwladol. Bydd disgyblion yn dechrau meddwl am drosedd gynnew ar lefel genedlaethol ac wedyn ehangu eu gwybodaeth am ddefnydd a masnach gynnew'n rhyngwladol. Mae'r wers yn gorffen gyda'r disgyblion yn cael eu cyflwyno i'r syniad o Gytundeb Masnach Arfau.

### AMCANION DYSGU

Erbyn diwedd y wers, dylai disgyblion fod yn gallu:

- adnabod materion allweddol sy'n gysylltiedig â meddu ar arfau
- trafod materion o amgylch y fasnach arfau ryngwladol
- defnyddio achosion penodol er mwyn cynnal eu dealltwriaeth
- asesu'r angen am Gytundeb Masnach Arfau rhyngwladol
- rhannu eu dysgu gyda'u cyfoedion.

### OEDRAN

14-16

### MEYSYDD PWNC

Astudiaethau cymdeithasol; Dinasyddiaeth fyd-eang; Dinasyddiaeth; Daearyddiaeth

### DYSGU BLAENOROL

Cyn addysgu'r wers hon, dylai'r disgyblion fod wedi dysgu am y Cenhedloedd Unedig.

### ADNODDAU SYDD EU HANGEN

- Cyflwyniad PowerPoint *Rheoli Arfau*
- Taflen adnoddau 1: *Cardiau Rhesymau pam gallai pobl fod â gwn.*
- Taflen adnoddau 2: Astudiaethau achos

### SUT I BARATOI

Dylid gosod y byrddau mewn chwe grŵp.

### GEIRFA

**Arfau** – (Arfogaeth) offeryn neu erfyn a gynllunnir i achosi poen

**Cytundeb Masnach Arfau** – cytundeb posibl rhwng gwladwriaethau a fyddai'n rheoli'r fasnach arfau ryngwladol

## CYNLLUN GWERS

AMSER	GWEITHGAREDDAU	ADNODDAU
10 munud	<p><b>I DDECHRAU</b></p> <p><b>Nod: ystyried defnydd gynnew yn y DU</b></p> <p>Mewn grwpiau, mae'r disgyblion yn copïo'r siart o'r cyflwyniad PowerPoint. Wedyn maent yn rhoi'r cardiau <i>Rhesymau pam gallai pobl fod â gwn</i> ble maent yn meddwl y dylent fod o dan y penawdau ar eu siartiau. Mae cardiau gwag ar gael os yw'r disgyblion eisiau ychwanegu eu hengeriffiau eu hunain.</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion roi rhesymau dros safleoedd y cardiau ar y siart.</p> <p><b>ESTYNIAD</b></p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion feddwl ble byddent yn rhoi'r cardiau pe baent yn gwneud y gweithgaredd o safbwynt gwlad arall e.e. UDA, De Affrica, México.</p>	<p>Sleid PPT 2 Adnodd 1 – Cardiau <i>Rhesymau pam gallai pobl fod â gwn</i></p>
20 munud	<p><b>ASTUDIAETHAU ACHOS</b></p> <p><b>Nod: i adolygu astudiaethau achos rhyngwladol cyfredol a phresennol</b></p> <p>Cafodd pob un o'r astudiaethau achos eu cymryd o dystiolaeth real, ddiweddar a gasglwyd gan ymchwilywyr sy'n gweithio yn y wlad berthnasol. Mae pob astudiaeth achos yn rhoi sefyllfa fer, yn amlygu sut mae arfau'n cael eu defnyddio'n anghyfreithlon, gan achosi anafiadau, marwolaeth ac yn dwysáu amgylcheddau sydd eisoes yn beryglus.</p> <p>Cyflwyno'r gweithgaredd i'r disgyblion.</p> <p>Dylai'r disgyblion fod yn gweithio mewn chwe grŵp.</p> <p>Rhowch un astudiaeth achos i bob grŵp (mae tair astudiaeth achos, felly bydd dau grŵp yn gweithio ar bob astudiaeth achos).</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen eu hastudiaeth achos a thrafod unrhyw bwyntiau allweddol ymysg ei gilydd.</p> <p>Ar ôl trafod unrhyw gwestiynau, gofynnwch i'r disgyblion lunio poster sy'n crynhoi pob darn perthnasol o wybodaeth sy'n gysylltiedig â'u hastudiaeth achos. Er mwyn annog y disgyblion i fod yn greadigol efallai byddwch yn dymuno rhoi terfyn geiriau iddynt.</p> <p>Rhowch gyfrifoldeb i bob aelod o'r tîm, e.e. ysgrifennydd, amserydd, arweinydd y grŵp, gwirydd gwybodaeth, arbenigwr, dylunydd.</p>	<p>Sleidiau PPT 3-5 Adnodd 2 – Astudiaethau achos</p>

AMSER	GWEITHGAREDDAU	ADNODDAU
15 munud	<p><b>RHANNU GWYBODAETH</b></p> <p><b>Nod: i rannu dysgu a gofyn cwestiynau wrth gyfoedion</b></p> <p>Dyma gyfle i'r disgyblion rannu'r wybodaeth maent wedi ei chasglu gan eu hastudiaeth achos gyda'r grwpiau eraill.</p> <p>Mae'r 'arbenigwr' ym mhob grŵp yn aros wrth y bwrdd. Ei rôl ef yw 'addysgu' neu 'rannu' prif bwyntiau'r astudiaeth achos gyda'r disgyblion eraill sy'n ymweld â'r bwrdd.</p> <p>Mae gweddill y grŵp yn mynd i fyrddau'r grwpiau eraill. Eu rôl yw darganfod ffeithiau allweddol am y ddwy astudiaeth achos arall. Efallai byddwch yn dymuno defnyddio sleid PowerPoint 6 i helpu'r disgyblion gyda'r dasg hon.</p> <p>Ar ôl tua 10 munud gofynnwch i'r grwpiau ddychwelyd i'w seddau gwreiddiol. Nawr maent yn rhannu'r wybodaeth maent wedi'i chasglu am yr astudiaethau achos eraill gydag 'arbenigwr' y grŵp.</p>	Sleid PPT 6
5 munud	<p><b>ATEBION</b></p> <p><b>Nod: i ffurfio atebion i broblemau a godir gan y fasnach arfau ryngwladol</b></p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am y cwestiynau canlynol mewn parau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pam rydych chi'n meddwl bod arfau'n cael eu masnachu rhwng gwledydd yn y ffordd hon?</li> <li>• O ble rydych chi'n meddwl bod yr arfau'n dod yn y rhan fwyaf o achosion?</li> <li>• Pwy rydych chi'n meddwl sy'n gyfrifol am y fasnach?</li> <li>• Oes unrhyw reolau ar y fasnach arfau?</li> <li>• Allwch chi feddwl am unrhyw atebion posibl a allai ddechrau datrys y broblem hon?</li> </ul> <p>Gofynnwch i'r disgyblion adrodd yn ôl ar eu hatebion i'r dosbarth. Dylech chi gwestiynu eu syniadau, a cheisio eu harwain tuag at adnabod cytundeb rhyngwladol.</p>	Sleid PPT 7
5 munud	<p><b>Y CYTUNDEB MASNACH ARFAU</b></p> <p>Cyflwynwch y Cytundeb Masnach Arfau, gan roi trosolwg o'r hanes er 2006.</p>	Sleid PPT 8

AMSER	GWEITHGAREDDAU	ADNODDAU
5 munud	<p><b>GWEITHGAREDD I'R GRŴP CYFAN</b></p> <p><b>Nod: i gydgrynhoi'r dysgu</b></p> <p><b>Trafodaeth</b>  Arweiniwch drafodaeth ar ba heriau a allai fodoli wrth gael cytundeb masnach arfau rhyngwladol effeithiol ym marn y disgyblion.</p> <p>Beth allai fod o help er mwyn goresgyn yr heriau hyn? Beth fyddai'n gwneud y cytundeb masnach arfau'n fwyaf effeithiol?</p> <p><b>ESTYNIAD/GWAITH CARTREF</b></p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion edrych ar y wefan <b>www.controlarms.org</b> i ddarganfod rhagor.</p>	Sleid PPT 9